WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy
Innovation House
Cil-y-coed
NP26 9AN

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 642A2012 |
| **Dyddiad** | 19 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **8** |

Annwyl Paul

# Llythyr Asesiad Gwella 2

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Sir Fynwy ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 3 Hydref 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor; a
- fy nghynigion a/neu argymhellion pellach ar gyfer gwella.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

**Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn *How we performed 2011/12 improvement plan – Stage 2* (yr Adroddiad Perfformiad) cyn 31 Hydref 2012.
- Fel sy'n ofynnol o dan y Mesur, mae'r Adroddiad Perfformiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ac yn nodi'n eglur sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Yn unol â'r Mesur, mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys manylion perfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae crynodeb o brif ganfyddiadau gwaith rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gynnwys ac mae'r wybodaeth a gofnodir yn rhoi crynodeb cytbwys o'r prif ganfyddiadau ac yn nodi'n fras sut yr eir i'r afael â fy argymhellion.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gael yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor a gallwch ofyn am gopi caled. Gallwch ofyn am fersiwn Gymraeg a fersiynau mewn fformatau eraill, yn cynnwys fersiwn Braille a fersiwn sain. Gwneir hyn yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.
- Hefyd cynhyrchwyd crynodebau penodol o'r Adroddiad Perfformiad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallwch lawrlwytho'r rhain o wefan y Cyngor neu ofyn am gopi caled.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad llawn a'r crynodeb yn cynnwys adran i ddinasyddion sydd eisiau rhagor o wybodaeth neu sy'n dymuno cyfrannu yn y dyfodol.

Gallai'r Cyngor gydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru a nodais nifer o feysydd lle gall y Cyngor wella ei Adroddiad Perfformiad:

- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn darparu dolenni i wefannau pob rheoleiddiwr er mwyn i ddarllenwyr allu gweld adroddiad yr archwiliad ac adroddiadau rheoleiddio eraill, yn cynnwys arolygon gwasanaethau. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn adrodd yn fanwl ar ganfyddiadau a chasgliadau gweithgarwch rheoleiddio Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac nid yw'n cynnwys unrhyw gasgliadau ynglŷn â'u gwaith diweddaraf. Golyga hyn nad yw'r Cyngor yn ystyried pob ffynhonnell wybodaeth briodol sydd ar gael wrth werthuso ac adrodd ar ei berfformiad.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys adran ar weithgarwch pwysig ar y cyd megis Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg ledled Gwent a phrosiectau isranbarthol penodol eraill fel y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau ar gyfer darpariaeth TGCh gyda Chyngor Bwrdeistref Torfaen a Heddlu Gwent. Er bod y wybodaeth gryno yn rhoi cipolwg da ar weithgarwch cyfredol, gellid ei wella drwy nodi manteision gwirioneddol y gwaith ar y cyd hyd yn hyn, megis arbedion arian a sicrhawyd, neu a gyflawnwyd y canlyniadau a fwriadwyd drwy weithio ar y cyd.

- Er bod yr Adroddiad Perfformiad ar gael ar wefan y Cyngor, mae’n anodd dod o hyd iddo o’r dudalen gartref, nid yw’n cael ei hyrwyddo ac ni ddowch o hyd iddo oni bai eich bod yn gwybod beth i edrych amdano. Gallai’r Cyngor ei wneud yn fwy hygyrch i ddinasyddion a bod yn fwy atebol dros ei berfformiad drwy dynnu sylw at yr Adroddiad Perfformiad ar y dudalen gartref.

## Mae’r Cyngor yn gwneud peth cynnydd gyda hunanwerthuso ond mae angen iddo fod yn fwy cyson a chytbwys yn y modd y mae’n adrodd ar ei berfformiad, ei werthuso a rhoi cyfrif amdano

Rwyf wedi dod i’r casgliad hwn gan i mi nodi yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012 fod angen i’r Cyngor wella’r modd y mae’n arddangos effaith ei weithgarwch, ac adrodd yn llawnach ar y pethau y dywedodd y byddai’n eu gwneud yn ei Adroddiad Perfformiad yn 2011-12. Canfu fy adolygiad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor a’r systemau a sefydlodd i oruchwylio a gwerthuso ei berfformiad ei hun yn 2011-12 fod y Cyngor yn gwella agweddau ar ei drefniadau rheoli ac adrodd ar berfformiad. Ond mewn rhai meysydd, nid yw’r Cyngor wedi llwyr fynd i’r afael â gwendidau a nodais yn flaenorol, ac mae hyn yn ei lesteirio rhag gwella ei drefniadau hunanwerthuso.

Nid ydym wedi edrych ar drefniadau rheoli ac adrodd ar berfformiad mewn Addysg yn yr adolygiad hwn gan fod Estyn yn arolygu’r Awdurdod Addysg Lleol ym mis Tachwedd 2012. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar hunanwerthusiad y Cyngor o dri o’r chwe Amcan Gwella sy’n ymwneud â Hyfforddiant a Chyflogaeth; Adfywio a Datblygu Economaidd; a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

### Mae gan y Cyngor fframwaith ar gyfer rheoli ac adrodd ar berfformiad ond mae anghysonderau yn y broses o adrodd ar wasanaethau yn cyfyngu ar ei allu i werthuso perfformiad yn gyson mewn modd cytbwys

Mae Tîm Gwella canolog yn cydgysylltu a goruchwylio trefniadau rheoli perfformiad ar draws y Cyngor. Mae’r tîm yn darparu cefnogaeth i wasanaethau; yn cydgysylltu’r broses o greu mesurau perfformiad a chanlyniadau dangosol; ac yn chwarae rhan weithredol yn cefnogi agenda gwella’r Cyngor drwy ei waith gyda gwasanaethau. Mae’r Tîm Gwella yn cefnogi perfformiad ar draws gwasanaethau’r Cyngor, ac nid yw’n herio’u gweithgarwch yn fewnol. Y gwasanaethau unigol yn unig fel ‘perchnogion’ yr Amcanion Gwella sy’n ysgwyddo’r cyfrifoldebau hyn, a nhw sy’n atebol am adrodd ar eu perfformiad eu hunain yn erbyn yr amcanion.

Mae’r Cyngor yn defnyddio Cynlluniau Gwella Gwasanaeth (SIPs) unigol i reoli ac adrodd ar berfformiad. Mae’r cyfrifoldebau dros reoli perfformiad yn hysbys ac yn cael eu harddel, a gwelsom dystiolaeth o fewn Gofal Cymdeithasol fod SIPs yn cael eu defnyddio i gynllunio gweithgarwch a hybu gwelliant. Mae’n amlwg fod rheoli perfformiad yn y gwasanaeth hwn yn cael ei weld fel elfen bwysig ac angenrheidiol a’i fod yn cael ei ddefnyddio i helpu i werthuso a chynorthwyo rheolwyr i wella perfformiad a bod yn atebol

am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Fodd bynnag, mae'r gwendidau a nododd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012 yn y gwasanaethau Adfywio a Datblygu Economaidd yn parhau. Ychydig o dystiolaeth o newid neu welliant a geir yn y modd y mae'r gwasanaethau hyn yn gwerthuso eu perfformiad.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012 nodais nad yw'r Cyngor yn adrodd yn gyson ar gynnydd o ran cyflawni Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach gwasanaethau i'w bwyllgorau craffu. Ar gyfer 2011-12, gwelais fod peth gweithgarwch wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ei adolygu a bod yr Aelodau Craffu yn ystyried perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, er bod ffocws adrodd wedi newid yn ystod 2011-12 yn achos y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ei gwneud yn anodd i'r Aelodau olrhain cynnydd. Ni chyflawnir y trefniadau adrodd hyn yn ffurfiol mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle i herio a chraffu'n annibynnol ar wasanaethau ac mae'n gwanhau atebolrwydd. Mae yna gyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau herio mewnol o fewn ac ar draws y gwasanaethau, a gan Aelodau drwy drefniadau craffu.

**Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ffocws ar ganlyniadau ond oherwydd cyfyngiadau ar rai o'i werthusiadau, mae'n methu â llunio barn effeithiol ynglŷn â pha mor dda y mae'n cyflawni rhai amcanion gwella**

Mae hunanwerthuso yn nodwedd allweddol o broses wella pob sefydliad. Gall hunanwerthuso da ddarparu sicrwydd a galluogi sefydliadau i lunio barn ynglŷn â pha mor dda y maent yn perfformio a ble mae angen canolbwyntio adnoddau er mwyn hybu gwelliant. Mae hunanwerthuso effeithiol yn dibynnu ar greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio gwybodaeth, ac sy'n casglu ac yn canolbwyntio ar ddata o ansawdd a threfniadau adrodd o safon uchel, er mwyn gallu llunio barn ar berfformiad.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012 nodais fod angen i'r Cyngor arddangos yn fwy eglur sut y mae camau gweithredu a gynlluniwyd yn cyfrannu at ganlyniadau, a gwerthuso ei berfformiad yn fwy effeithiol mewn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn y dyfodol. Er bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd wrth werthuso ei berfformiad, mae fy asesiad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 wedi nodi fod angen o hyd i fynd i'r afael â gwendidau yn ansawdd a thrylwyredd rhai o'r asesiadau o Amcanion Gwella.

Mae'r Adroddiad Perfformiad wedi'i strwythuro'n dda, wedi'i gyflwyno'n eglur ac yn hawdd i'w ddarllen, ac mae'n defnyddio strwythur adrodd cyson i werthuso ac adrodd ar berfformiad ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella. Gwelais fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei fframwaith atebolrwydd adrodd ar berfformiad ar sail canlyniadau i'w alluogi i lunio barn yn well ynglŷn â'i weithgarwch drwy ddefnyddio mesurau sy'n gwerthuso faint mae'n ei wneud; pa mor dda mae'n ei wneud; ac a oes unrhyw un yn well ei fyd o ganlyniad i'r gwaith hwn. Ar gyfer 2011-12, mae'r Cyngor wedi parhau i fireinio a chryfhau ei fesurau perfformiad er mwyn ei helpu i asesu effaith ei waith yn well, a bydd hyn yn ei

wneud yn fwy atebol i ddinasyddion Sir Fynwy. Hefyd, gwelodd fy adolygiad fod Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn asesu rhai meysydd i weld a gyflawnwyd y camau gweithredu a osodwyd yn y flwyddyn flaenorol ac yn adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion llwyddiant a fabwysiadwyd gan ddefnyddio strwythur Atebolrwydd ar sail Canlyniadau[1].

Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys sylwadau ar rai meysydd, megis gwasanaethau gwastraff, lle mae cynnydd yn araf neu lle na wnaed unrhyw gynnydd o ran cyflawni camau gweithredu. Mae hyn yn gwneud proses hunanwerthuso'r Cyngor o'r Amcan Gwella hwn yn fwy cytbwys, atebol a chynhwysfawr.

Fodd bynnag, gwelodd fy adolygiad hefyd nad yw'r sylfaen dystiolaeth a gwerthuso yn gadarn mewn rhai meysydd, megis y gwasanaethau sy'n cyfrannu at Amcan Gwella adfywio, ac nid yw'r naratif yn cyd-fynd â'r casgliad ynglŷn ag a yw'r Cyngor yn gwneud yr hyn yr oedd wedi bwriadu ei wneud. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn llwyddiannus ac a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella, ac mae'n rhoi darlun anghytbwys ac anghyflawn o'r graddau y mae wedi gwneud yr hyn yr oedd wedi bwriadu ei wneud.

Hefyd, gwelodd fy adolygiad o Adroddiad Perfformiad 2011-12 y Cyngor ddarlun anghyson o ba mor dda y mae'r fframwaith atebolrwydd ar sail canlyniadau wedi'i sefydlu o fewn y Cyngor. Mewn rhai meysydd, mae ystod ac ansawdd y mesurau perfformiad a ddefnyddiwyd yn galluogi'r Cyngor i werthuso cynnydd yn dda. Er enghraifft, yr Amcan Gwella sy'n dod ag iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol at ei gilydd drwy Raglen Eiddilwch Gwent i hyrwyddo annibyniaeth pobl agored i niwed. Yma, mae tystiolaeth ac asesiad y Cyngor yn defnyddio mesurau priodol i lunio barn ynglŷn â'i effaith, er enghraifft, canran y bobl sy'n annibynnol ar ddiwedd y broses Ailalluogi, a chyfran y defnyddwyr gwasanaethau sy'n adrodd fod staff yn eu galluogi i fyw'n annibynnol. Mae'r rhain yn fesurau eglur ac addas sy'n ei gwneud hi'n bosibl gwerthuso cynnydd ac effaith.

Ategir hyn gan asesiad diweddar AGGCC a nododd fod adroddiad y Cyfarwyddwr yn fanwl, ac yn gosod cyflawniadau'r cyngor a'r meysydd blaenoriaeth i'w datblygu o fewn cyd-destun lleol a chenedlaethol clir. Ymhellach, mae AGGCC yn cydnabod fod proses hunanwerthuso'r Cyngor yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlenni a'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu. Mae AGGCC yn nodi y byddai gwasanaethau wedi'u targedu'n well at gynhalwyr unigol yn gwella canlyniadau unigol a dangosyddion perfformiad ac er bod cryn dipyn o ffordd i fynd eto, yn enwedig o ran datblygu systemau rheoli perfformiad cadarn i fesur canlyniadau sy'n codi o Raglen Eiddilwch Gwent, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd craidd fel y'u

---

[1] Dull o gynllunio ac asesu perfformiad gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau y bwriedir i'r gwasanaethau eu cyflawni.

mesurwyd gan Ddangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith pellach a gynlluniwyd gan bob cyngor gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan o dan y rhaglen Eiddilwch yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau er mwyn llunio barn fwy effeithiol ar ei berfformiad.

Mewn meysydd eraill fodd bynnag, nid yw'r sylfaen dystiolaeth a'r broses werthuso mor gadarn. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella sy'n canolbwyntio ar ddarparu dull cydgysylltiedig a chynhwysfawr o adfywio a datblygu ardal, gwelais mai dim ond un mesur sydd gan y Cyngor ar gyfer asesu a yw canlyniadau wedi gwella i ddinasyddion, ac mae'n ymwneud ag asesu nifer y bobl sy'n dioddef tlodi tanwydd yn Overmonnow. Mesur eithaf cul o effaith yw hwn ac nid yw'n berthnasol i'r rhaglen lawn o waith sy'n cael ei gyflawni, ac mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn gallu llunio barn na dangos a yw'n gwella canlyniadau i ddinasyddion.

Gall gosod targedau fod yn ddull defnyddiol o herio'r sefydliad neu faes gwasanaeth penodol i wneud yn well a bod yn atebol dros gynnydd a pherfformiad. Mae adolygu perfformiad mewn perthynas â thargedau yn rhoi gwybodaeth ynglŷn ag a yw amcanion yn cael eu cyflawni mewn modd wedi'i reoli a'i gynllunio. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 yn cynnwys gwybodaeth am dargedau, ac yn gwerthuso perfformiad yn erbyn y rhain o dan bob un o'i Amcanion Gwella. Golyga hyn fod y Cyngor yn gallu adrodd ar ei effeithiolrwydd yn cyrraedd ei dargedau, a gall dinasyddion weld a yw'r Cyngor yn gwneud y gwelliannau y credai y gallai eu cyflawni.

Mewn amryw o lefydd, mae'r Adroddiad Perfformiad yn amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSIs), Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a Setiau Data Gwella Gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad gwirioneddol ar gyfer y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf (2008-09 i 2011-12), y chwartel ar gyfer perfformiad cyfredol ac i ba gyfeiriad mae'n mynd - gwella neu ddirywio - dros y cyfnod hwn, yn ogystal â chymharu perfformiad â chyfartaledd Cymru. Hefyd, mae'r Cyngor wedi cynnwys cyfres o graffiau sy'n dangos sut y mae'r gwasanaethau craidd sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid - gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai a'r amgylchedd - yn perfformio mewn perthynas â'r NSIs ac yn cofnodi cyfran y mesurau perfformiad sy'n gwella ac yn dirywio yn 2011-12. Mae'n werthusiad da o weithgarwch ond gallai fod yn well eto drwy gynnwys safle'r Cyngor ymhlith y 22 o gynghorau Cymru; y newid blynyddol yn ei safle; a'i berfformiad o gymharu â chynghorau eraill er mwyn llunio barn fwy effeithiol ynglŷn â graddau'r gwelliant. Byddai cynnwys system oleuadau traffig (Coch: Melyn: Gwyrdd) yn ei gwneud yn hawdd nodi a yw perfformiad yn gwella neu'n dirywio.

Yn eu gwerthusiad o'u perfformiad, anogir Cynghorau i gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau eraill o wybodaeth fwy ansoddol megis arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau a data meincnodi. Nid yw dadansoddiadau'r Adroddiad Perfformiad yn ddigon eang mewn rhai meysydd ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol

cenedlaethol. Byddai cynnwys y wybodaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo'r Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn fwy effeithiol ac adrodd ar welliant yn fwy cyflawn. Mae'n gadarnhaol fod y Cyngor wedi cynnwys gwybodaeth benodol ar gyllidebau cyfalaf a refeniw sy'n cyfrannu at gyflawni gweithgarwch o dan bob un o'r Amcanion Gwella, ac mae'n nodi'n benodol beth yw rôl partneriaid a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad a fwriadwyd. Mae hyn yn galluogi'r darllenydd i ddeall y perfformiad yn well yn ogystal â'r cyd-destun y mae'r gwasanaethau'n gweithredu o'i fewn.

Er bod yr Adroddiad Perfformiad yn disgrifio mewn termau cyffredinol sut y mae'r Cyngor wedi perfformio, eto nid yw'n cynnwys datganiad gwerthusol cyffredinol yn erbyn pob un o'r Amcanion Gwella i ddynodi'n eglur a yw'r Cyngor yn credu ei fod wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Nodais hyn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012 fel rhywbeth a fyddai'n gwella proses hunanwerthuso'r Cyngor o'i berfformiad ei hun. Mae absenoldeb datganiadau gwerthusol yn tanseilio trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor ac yn rhwystro'r Cyngor a'r cyhoedd rhag deall a gyflawnwyd yr Amcanion Gwella ai peidio. Mae hyn yn gwanhau atebolrwydd y Cyngor i ddinasyddion.

**Nid yw rhai systemau ar gyfer rheoli dangosyddion perfformiad yn gadarn ac mae dibynadwyedd data wedi dirywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

Mae angen i bob cyngor feddu ar wybodaeth dda a'i defnyddio'n effeithiol os yw'n mynd i ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud yn well eto. Mae gan y Cyngor systemau wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer adrodd ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Roedd y mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn cynnwys cymysgedd o NSIs, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaeth a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn rhai y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i lunio barn ynglŷn ag i ba raddau y mae'n cyflawni ei Amcanion Gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion. Gwelsom fod gan y Cyngor systemau da ar waith ar y cyfan i gydgysylltu a rheoli cynhyrchiant y wybodaeth hon ar berfformiad ar gyfer Cymru gyfan, er bod amodau ynghlwm wrth un o'r 13 mesur a archwiliwyd.

Mewn perthynas â mesurau lleol, archwiliais 15 o ddangosyddion perfformiad lleol, a defnyddir pob un ohonynt i lunio barn ynglŷn ag i ba raddau y mae'r Cyngor yn perfformio o ran cyflawni ei chwe Amcan Gwella. O'r cyfanswm hwn, gwelais nad oedd gan un o'r dangosyddion systemau ar waith ar gyfer adrodd ar berfformiad, ac o ganlyniad, ni ellid ei archwilio na'i ddefnyddio i lunio barn ynglŷn â gwelliant; gosodwyd amodau ar dri dangosydd oherwydd anghysondeb wrth goladu ac asesu data; a bu'n rhaid diwygio dau ddangosydd o ganlyniad i nam system. Mae hyn yn ddirywiad sylweddol yn y perfformiad ers 2010-11, pan na ddaeth fy archwiliad o hyd i unrhyw drafferthion system o gwbl ar gyfer rheoli ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy;<br>Fynegi barn y Cyngor ynglŷn â'i lwyddiant yn cyflawni ei amcanion gwella;<br>Defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella; a<br>Sicrhau bod asesiad y Cyngor o'i berfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. |
| C2 | Sicrhau bod gan bob gwasanaeth drefniadau cyson ac effeithiol ar gyfer rheoli, adrodd ar, gwerthuso a gwella perfformiad, wedi'u hadrodd yn erbyn safonau gofynnol y cytunwyd arnynt ac sy'n ddarostyngedig i drefniadau craffu a herio cadarn. |

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau